**CYNGOR CAERDYDD**

COFNODION

# CYFARFOD Y CABINET: ERROR! UNKNOWN DOCUMENT PROPERTY NAME.

Aelodau Cabinet yn Bresennol: Y Cynghorydd Huw Thomas (Arweinydd)
Y Cynghorydd Peter Bradbury
Y Cynghorydd Susan Elsmore
Y Cynghorydd Russell Goodway
Y Cynghorydd Graham Hinchey
Y Cynghorydd Sarah Merry
Y Cynghorydd Michael Michael
Y Cynghorydd Lynda Thorne
Y Cynghorydd Christopher Weaver
Y Cynghorydd Caro Wild

Gwylwyr: Y Cynghorydd Joe Boyle
Y Cynghorydd Adrian Robson

Swyddogion: Paul Orders, y Prif Weithredwr
Christine Salter, Swyddog Adran 151
David Marr, ar ran y Swyddog Monitro
Joanne Watkins, Swyddfa'r Cabinet

Ymddiheuriadau:

## COFNODION Y CYFARFOD CABINET A GYNHALIWYD AR 15 CHWEFROR 2018

**PENDERFYNWYD**: cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Chwefror.

## CYNLLUN CORFFORAETHOL 2018-2021

Trafododd y Cabinet y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2018-21. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn rhan o fframwaith polisi strategol ac yn cyflawni dyletswyddau'r Cyngor dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Strwythurwyd y cynllun yn seiliedig ar bedair blaenoriaeth Uchelgais Prifddinas: Gweithio dros Gaerdydd, Gweithio dros Gymru, Gweithio dros y Dyfodol a Gweithio dros y Gwasanaethau Cyhoeddus.

PENDERFYNWYD:

1. cymeradwyo Cynllun Corfforaethol 2018-21 i'w ystyried gan y Cyngor ar 22 Mawrth 2018; ac

2. argymell bod y Cyngor yn dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, i wneud unrhyw newidiadau canlyniadol i Gynllun Corfforaethol 2018-21 yn dilyn ystyriaeth gan y Cyngor ar 22 Mawrth 2018 a chyn ei gyhoeddi erbyn 1 Ebrill 2018.

**CYNLLUN LLESIANT LLEOL CAERDYDD**

Bu i'r Cabinet ystyried cynllun Lles Lleol Caerdydd cyn i'r Cyngor ei ystyried. Mae'r cynllun Lles yn nodi blaenoriaethau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd dros y 5 mlynedd nesaf ac wedi hynny. Roedd y cynllun yn cynnwys Amcanion Lles, y blaenoriaethau lefel uchel y mae'r BGC wedi nodi sydd bwysicaf.

PENDERFYNWYD: y caiff y Cynllun Lles ei gymeradwyo i'w ystyried gan y Cyngor ar 22 Mawrth 2018

**PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD CYNLLUN BUSNES CYTUNDEB GWEITHIO AR Y CYD**

Ystyriodd y Cabinet Gynllun Busnes Cytundeb Gweithio ar y Cyd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r Cynllun Busnes yn galluogi Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i ddefnyddio'r £445 miliwn sydd ar ôl yn y Gronfa Fuddsoddi Ehangach. Mae'n cynnwys ymrwymiad mewn egwyddor i bennu £40 miliwn ar gyfer moderneiddio ac ailddatblygu Gorsaf Caerdydd Canolog, yn amodol ar gynllun busnes manwl.

**PENDERFYNWYD:** yr argymhellir Cynllun Busnes Cytundeb Gweithio ar y Cyd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i'r Cyngor ei gymeradwyo yn y ffurf a atodir fel Atodiad B i'r adroddiad.

**MAN CLADDU NEWYDD**

Derbyniodd y Cabinet adroddiad yn manylu'r cynigion i ddatblygu ardal o dir y Cyngor tua'r gogledd o'r M4, ar yr A469 ar gyfer creu mynwent, yn dibynnu ar ganiatâd cynllunio. Mae'r safle yn 12.5 erw a bydd yn cynnig man claddu ar gyfer gogledd y ddinas am y 35—40 blynedd nesaf.

**PENDERFYNWYD:**

1. cefnogi cyflwyno cais cynllunio i geisio'r caniatâd angenrheidiol ar gyfer datblygu safle ar yr A469 tua'r gogledd o'r M4, sydd wedi'i nodi ar y map atodol fel Atodiad 1, fel mynwent drefol.

2. y bydd swyddogion yn ceisio negodi ildio’r cytundeb tenantiaeth cyfredol gan y lesddeiliaid er mwyn adfer y tir angenrheidiol ar ddyddiad cynharach, ac yna cyhoeddi hysbysiad terfynu o ran y denantiaeth.

**RHAGLEN RHEOLI RISG ARFORDIROL**

Ystyriodd y Cabinet adroddiad ar Amddiffynfeydd Arfordir Caerdydd a Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol Llywodraeth Cymru. Mae Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfle unigryw i awdurdodau lleol weithredu projectau ar gyfer cymunedau arfordirol, a Llywodraeth Cymru’n ariannu 75% o’r costau project.

Bu Cyngor Caerdydd yn llwyddiannus wrth sicrhau arian cyfwerth â 100% gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu Achos Busnes Amlinellol. Mae’r adroddiad yn ceisio caffael dylunio ac adeiladu’r cynllun yn fanwl.

PENDERFYNWYD:

1. caffael dylunio ac adeiladu manwl yr amddiffyniadau arfordirol gwerth £11m.
2. Darparu cyllid ar raniad 75% gan Lywodraeth Cymru a 25% gan Gyngor Caerdydd.
3. ymrwymo’r cyllid angenrheidiol o 25% i ddarparu’r amddiffynfeydd arfordirol yn unol â Rhaglen Reoli Risgiau Arfordirol Llywodraeth Cymru.
4. ailasesu’r cynllun yn dilyn cwblhau’r dyluniad manwl i gadarnhau goblygiadau ariannol adeiladu a dichonoldeb.

**TREFNIADAU DERBYN I YSGOLION 2019/20**

*Bu i’r Cyng. Caro Wild ddatgan buddiant bersonol a rhagfarnus yn yr eitem hon oherwydd bod ganddo blentyn y byddai’r newidiadau’n effeithio arno. Gadawodd y Cyng. Wild y cyfarfod ac ni fu’n rhan o’r penderfynu.*

Yn unol ag Adran 89 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006, gofynnir i'r Cyngor adolygu'r Polisi Derbyn i Ysgolion bob blwyddyn. Felly ystyriodd y Cabinet y Polisi Trefniadau Derbyn i Ysgolion ar gyfer 2018/19. Bu’r polisi’n destun ymgynghori â phenaethiaid, cyrff llywodraethu, cyfarwyddwyr esgobaethol, awdurdodau addysg lleol cyfagos a chyrff eraill â diddordeb.

Yn dilyn ystyriaeth gan y Cabinet ar 16 Tachwedd 2017, cynhaliwyd ymgynghoriad yn ymateb i ganfyddiadau ymchwil Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru a gwahoddwyd sylwadau ar ddewisiadau eraill ar gyfer derbyn i addysg uwchradd. Roedd yr adroddiad yn cynnwys ac yn gwerthuso’r ymatebion i’r ymgynghoriad.

PENDERFYNWYD:

1. y dylid pennu y Trefniadau Drafft ar gyfer Derbyniadau Ysgol 2019/2020 fel y nodir ym Mholisi Derbyniadau 2019/2020. Mae'r rhain wedi eu hatodi.

2. y nodir bod y Trefniadau ar gyfer Derbyniadau Ysgol 2019/2020 yn gweithredu Opsiwn A ar gyfer derbyn i addysg uwchradd, fel y nodir yn y Ddogfen Ymgynghori ar Drefniadau Derbyn (Atodiad 2).

3. y nodir y bydd y Cabinet yn derbyn adroddiad dilynol ar newidiadau i ddalgylchoedd ysgol ar gyfer 2020/2021.

**DATGANIAD POLISI TÂL 2018/19**

Mae gofyniad statudol ar y Cyngor dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 i baratoi datganiad polisi tâl bob blwyddyn. Felly ystyriodd y Cabinet y Polisi Tâl ar gyfer 2018/19 cyn i'r Cyngor ei ystyried. Rhoddodd y datganiad polisi fframwaith i sicrhau bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo yn deg ac yn wrthrychol ac yn ddiwahân. Yn unol ag ymrwymiad y Cyngor wrth degwch a didwylledd, mae datganiad y polisi tâl hefyd yn cynnwys adroddiad y Cyngor ar y bwlch tâl rhwng y ddau ryw.

PENDERFYNWYD:

y bydd y Cabinet yn cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl 2018/19 atodol (Atodiad 1) i'r Cyngor ei ystyried ar 22 Mawrth 2018 a nodi:

(i) bod cyfraniadau pensiwn y cyflogwr wedi'u cynnwys yng nghyfrifiad tâl wythnosol cyflogai, lle bo'n briodol

(ii) y bydd angen i'r Cyngor gymryd camau i weithredu newidiadau sy'n dod o'r NJC ar gyfer Tâl Llywodraeth Lleol ar gyfer 2018/20

(iii) cynnwys yr adroddiad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

(iv) ymrwymo wrth egwyddorion a chanllawiau ar y defnydd priodol o drefniadau oriau na sicrheir yn y gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru, fel y datblygwyd gan Gomisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus mewn partneriaeth gymdeithasol â Chyngor Partneriaeth Llywodraeth Cymru a'i grwpiau sector.

(v)

**ARDRETHI ANNOMESTIG CENEDLAETHOL – DILËWYD**

***Ni fydd Atodiadau A a B yr adroddiad hwn yn cael eu cyhoeddi yn rhinwedd Paragraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972***

Ystyriodd y Cabinet adroddiad yn gofyn am yr awdurdod i ddileu dyledion gwerth £508,959.09. Amlinellodd yr adroddiad gamau gweithredu a gymerwyd ynglŷn â cheisio adennill y ddyled hon.

PENDERFYNWYD: awdurdodi dileu dyledion sy'n dod i £508,959.09.

**CYNLLUN BUSNES CYFRIF REFENIW TAI 2018-19**

Mae gofyn ar awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai yn flynyddol. Mae Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai yn nodi diben a gweledigaeth y Cyngor fel landlord tai cymdeithasol, yn nodi amcanion a safonau ar gyfer y gwasanaeth, yn cynllunio adnoddau ac yn sicrhau cynnal Safon Ansawdd Tai Cymru. Felly, ystyriodd y Cabinet y Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2018/19.

PENDERFYNWYD:

1. y cymeradwyir Cynllun Busnes y CRT 2018-2019.

2. y nodir y cyflwynir y Cynllun cymeradwy i Lywodraeth Cymru.

**RHAGLEN BUDDSODDI ADFYWIO WEDI EI DARGEDU**

Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru am raglen ariannu newydd i gynorthwyo projectau adfywio economaidd, cyflwynwyd canllawiau ar y Rhaglen Buddsoddiad Adfywio wedi ei Dargedu ym mis Hydref 2017. Nod cyffredinol y Rhaglen Buddsoddi yw cynorthwyo projectau sy'n hyrwyddo adfywio economaidd, yn canolbwyntio ar bobl ac ardaloedd sydd fwyaf mewn angen. Gwahoddir awdurdodau lleol i gyflwyno cynigion buddsoddi cyfalaf â'r nod o ehangu ffyniant a gwella lles cymunedol. Felly ystyriodd y Cabinet y themâu a phrojectau blaenoriaeth sy'n sail i'r cynigion gan Lywodraeth Cymru.

PENDERFYNWYD:

1. y nodir y cyfle cyllid a gyflwynwyd gan Raglen Buddsoddiad Adfywio Wedi ei Dargedu Llywodraeth Cymru a gofynion arian cyfatebol cysylltiedig;

2. y cytunir ar themâu a phrojectau â blaenoriaeth ar gyfer y Rhaglen Buddsoddiad Adfywio Wedi ei Dargedu a nodir yn yr adroddiad;

3. y dirprwyir awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau, Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd a Chyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau, yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu a'r Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol

a Thrafnidiaeth, i gwblhau manylion am gyfraniad y Cyngor at y Cynllun Adfywio Rhanbarthol a pharatoi ceisiadau cyllid i'w hystyried dan y Rhaglen Buddsoddiad Adfywio Wedi ei Dargedu.

## CAFFAEL TIR PENTREF CHWARAEON RHYNGWLADOL CAERDYDD

*Ni chyhoeddir Atodiad 3 yr adroddiad hwn gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r math a ddisgrifir ym Mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

Ystyriodd y Cabinet adroddiad a oedd yn ceisio canfod diddordeb yn y brydles ar yr eiddo ym Mhentref Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd, lle mae Toys 'R Us ar hyn o bryd. Bydd prynu'r tir yn cynorthwyo cyflawni un o brojectau adfywio allweddol Caerdydd.

PENDERFYNWYD: bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu a swyddogion statudol i ganfod diddordeb llesddeiliaid yn safle Toys 'R' Us, sydd wedi'i liwio'n las ar y cynllun atodol yn Atodiad 1, ar y telerau yn Atodiad 3 sy'n gyfrinachol ac yn amodol ar werthusiadau annibynnol llawn.

## CYNLLUN ARDAL CAERDYDD BRO MORGANNWG AR GYFER ANGHENION GOFAL CHYMORTH 2018-2023

Ychwanegodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 adran 14A at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n gofyn i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol baratoi a chyhoeddi cynllun (y Cynllun Ardal), sy'n nodi ystod a lefel y gwasanaethau y maent yn cynnig eu darparu, neu drefnu eu darparu, yn ymateb i Asesiad Anghenion y Boblogaeth. Felly ystyriodd y Cabinet Gynllun Ardal Caerdydd a Bro Morgannwg ar gyfer Anghenion Gofal a Chymorth 2018-2023.

PENDERFYNWYD:

1. cymeradwyo Cynllun Ardal Caerdydd a Bro Morgannwg (fel y nodir yn Atodiad 1)

2. Cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu Ardal (fel y nodir yn Atodiad 2) ar gyfer Anghenion Gofal a Chymorth 2018-2023.